OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 297

# Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2021

**Arbedion: rhannu gwybodaeth**

**5.**—(1) Er bod adran 113 o Ddeddf 2021 yn dod i rym (yn rhinwedd erthygl 2(b)), mae adrannau 33 a 34 o Fesur 2009 yn parhau i gael effaith, fel pe na bai adran 113 wedi dod i rym, at ddiben rhannu gwybodaeth a dogfennau—

(a) a gafwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru neu a ddangoswyd iddo wrth arfer swyddogaethau o dan adrannau 17 a 19 o Fesur 2009 mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2020, neu

(b) at ddiben arfer gan Archwilydd Cyffredinol Cymru y swyddogaethau hynny mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol honno.

(2) At y diben a ddisgrifir ym mharagraff (1), mae'r darpariaethau a ganlyn yn parhau i gael effaith fel pe na bai adran 113 o Ddeddf 2021 wedi dod i rym—

(a) y diffiniadau o "rheoleiddwyr perthnasol" a "swyddogaethau perthnasol" sydd wedi eu cynnwys yn adran 16 o Fesur 2009;

(b) swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru a grybwyllir yn adran 23(7)(b) o Fesur 2009.